

I holl Ymatebwyr yr Ymgynghoriad Adneuo

Annwyl Syr/Madam

**Archwiliad i gadernid Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018 – 2033)**

Cyfeiriwn at yr uchod.

Ein henwau ni yw Nicola Gulley ac Ian Stevens, a ni yw'r Arolygwyr a benodwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gynnal yr archwiliad annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin.

Ymgynghorodd y Cyngor ar yr 2<sup>il</sup> Gynllun Adneuo rhwng 17 Chwefror 2023 a 14 Ebrill 2023. Nid oedd y Cynllun yn destun unrhyw Newidiadau Penodol ac felly'r 2<sup>il</sup> CDLI Adneuo fydd y Cynllun a fydd yn cael ei archwilio.

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd i chi neu'ch sefydliad gyflwyno sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar y 2<sup>il</sup> CDLI Adneuo.

Corinne Sloley yw'r Swyddog Rhaglen a fydd yn ein cynorthwyo gyda'r archwiliad. Er iddi gael ei phenodi gan y Cyngor, bydd hi'n gweithio i ni wrth weinyddu'r archwiliad a'r gwrandawiadau ac mae hi'n annibynnol ar y Cyngor. Dylid anfon yr holl ohebiaeth a chyflwyniadau sy'n ymwneud â'r archwiliad at Corinne, ei manylion cyswllt yw:

**E-bost:** [LDPExamination@sirgar.gov.uk](mailto:LDPExamination@sirgar.gov.uk)

**Ffôn:** 01267 228624

**Cyfeiriad post:**

At sylw Corinne Sloley  
Lle a Seilwaith  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

***Cymryd rhan mewn gwrandawiadau***

Bydd yr archwiliad yn cynnwys cyfres o wrandawiadau cyhoeddus a gynhelir yn rhithwir gan ddefnyddio platfform Microsoft Teams. Rydym yn disgwyl y bydd y gwrandawiadau hyn yn dechrau ar **15 Hydref 2024** ac y byddant yn parhau am oddeutu 4 wythnos.

Mae rhaglen wrandawiadau ddrafft, gan gynnwys rhestr o gyfranogwyr posibl ac amlinelliad o'r materion sydd i'w trafod, wedi'i chyhoeddi ar wefan yr archwiliad. Sylwer

bod hon yn ddogfen 'fyw' ac y gall newid. Ein nod yw cyhoeddi'r amserlen derfynol ar gyfer y gwrandawiadau, rhestr derfynol o gyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn, a'r rhestr fanwl o faterion a chwestiynau, **23 Awst 2024**.

Bydd y gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd eu gwyllo, ond dim ond y rheiny a gyflwynodd sylwadau perthnasol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad adneuo sy'n gymwys i gymryd rhan. Mae'r rheiny sydd eisoes wedi dweud wrth y Cyngor eu bod am gael eu clywed wedi cael eu neilltuo i sesiynau perthnasol, fel y dangosir ar y rhaglen wrandawiadau ddrafft. Mae eraill sy'n gymwys i wneud cais i ymuno â'r sesiynau hyn (gan eu bod wedi cyflwyno sylwadau perthnasol) hefyd wedi'u rhestru, ond rhaid iddynt ofyn i gymryd rhan. Os ydych yn dymuno siarad mewn gwrandawiad ond nad ydych wedi'ch rhestru ar y rhaglen, a'ch bod wedi cyflwyno sylw sydd yn eich barn chi yn eich gwneud yn gymwys i roi tystiolaeth ar lafar yn y gwrandawiad hwnnw, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio y bydd unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed eisoes yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â thystiolaeth lafar a roddir yn ystod gwrandawiadau.

P'un a ydych wedi'ch nodi fel cyfranogwr ar y rhaglen ddrafft ai peidio, **mae'n HANFODOL eich bod yn CADARNHAU gyda'r Swyddog Rhaglen eich bod yn bwriadu siarad mewn sesiwn gwrandawiad cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na 12 canol dydd ar 31 Gorffennaf 2024**. Os na cheir cadarnhad eich bod am gymryd rhan mewn gwrandawiad erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn fodlon i'ch barn gael ei hystyried trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, beth bynnag y gallech fod wedi'i ddweud o'r blaen. Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn y mater hwn yn fawr.

Byddai hefyd o gymorth i'r Swyddog Rhaglen pe gallech gadarnhau eich manylion cyswllt, yn enwedig eich cyfeiriad e-bost (os oes gennych un) gan y bydd cyfathrebu yn y dyfodol yn digwydd trwy gyfrwng electronig cyn belled ag y bo modd. Dyfynnwch eich Rhif Adnabod Cynrychiolwr a ddangosir ar frig y llythyr hwn ym mhob gohebiaeth.

### **Gwybodaeth am yr archwiliad a chanllawiau ar ei gyfer**

Mae gwefan yr archwiliad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr archwiliad a'r gwrandawiadau. Bydd dogfennau a gyflwynir gan yr Arolygydd, y Swyddog Rhaglen, y Cyngor ac eraill yn cael eu cyhoeddi yn adran Llyfrgell yr Archwiliad y wefan o dan 'Dogfennau'r Archwiliad'. Dylech wirio'r wefan hon yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys newidiadau i'r rhaglen. [Ni chynhelir Cyfarfod Cyn Gwrandawiad ar gyfer yr archwiliad hwn.](#) Yn hytrach, mae Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Cyfranogwyr wedi'u cyhoeddi ar wefan yr Archwiliad ochr yn ochr â'r llythyr hwn. **Sicrhewch eich bod yn darllen y rhain yn ofalus a'ch bod yn cydymffurfio â hwy yn ystod yr archwiliad.**

Dylai cyfranogwyr nodi y byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor gan ofyn rhai cwestiynau rhagarweiniol ynghylch y CDLI a'i sylfaen dystiolaeth. Mae hyn er mwyn ein cynorthwyo ni yn unig ac i hwyluso proses archwilio effeithlon. Bydd y llythyr hwn ac ymateb y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr archwiliad cyn y gwrandawiadau.

Mae'r Cyngor yn darparu mynediad i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r manylion i'w gweld yng nghymal 3.3 o'r Nodiadau Cyfarwyddyd. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gweld copïau caled o ddogfennau'r archwiliad gysylltu â'r Swyddog Rhaglen a fydd yn falch o helpu.

### **Cyfieithu a chymorth arbennig mewn gwrandawiadau**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd dogfennau'r archwiliad ar gael yn ddwyieithog. Bydd cyfleusterau cyfieithu yn cael eu trefnu yn seiliedig ar y dewisiadau ieithyddol a nodwyd gan gyfranogwyr mewn gwrandawriad. Rydym yn croesawu cyfraniadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio'r sesiynau, byddem yn gwerthfawrogi os gallech gadarnhau eich dymuniad i gyfrannu yn y Gymraeg gyda'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl cyn y digwyddiad, fel bod y Cyngor yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol. Nid yw peidio â rhoi gwybod i ni ymlaen llaw yn cael unrhyw effaith ar eich hawl i gymryd rhan yn y Gymraeg, ond gall beri oedi i'r trafodion wrth i wasanaethau cyfieithu ar y pryd gael eu trefnu.

Dylai cyfranogwyr sydd â gofynion penodol ac sydd angen cymorth yn ystod yr archwiliad gysylltu â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y llythyr hwn, cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Rhaglen.

Gellir gweld copïau o'r dogfennau arholiadau a'r rhaglen sesiynau gwrandawriad ar dudalen we Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033 y Cyngor, yng nghanolfannau HWB/Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus y Cyngor (yn ystod oriau agor arferol).

Yn gywir

*Nicola Gulley ac Ian Stevens*

Arolygwyr

cc Cyngor Sir Caerfyrddin

Date: 09 July 2024

To all Deposit Consultation Respondents

Dear Sir/Madam

**Examination into the soundness of the Carmarthenshire Revised Local Development Plan (2018 – 2033)**

We refer to the above.

Our names are Nicola Gulley and Ian Stevens, and we are the Inspectors appointed by the Ministers of the Welsh Government to conduct the independent examination of the Carmarthenshire Revised Local Development Plan (LDP).

The Council consulted on the 2<sup>nd</sup> Deposit Plan from 17 February 2023 to 14 April 2023. The Plan was not subject to any Focussed Changes and therefore the 2<sup>nd</sup> Deposit LDP Plan will be the Plan subject to examination.

We are writing to you because you or your organisation made representations during the consultation on the 2<sup>nd</sup> Deposit LDP.

Corinne Sloley is the Programme Officer who will assist us with the examination. Although appointed by the Council, she will work for us in administering the examination and hearings and is independent of the Council. All correspondence and submissions relating to the examination should be sent to Corinne, her contact details are:

**Email:** [LDPExamination@carmarthenshire.gov.uk](mailto:LDPExamination@carmarthenshire.gov.uk)

**Tel:** 01267 228624

**Postal address:**

FAO Corinne Sloley  
Place and Infrastructure  
3 Spilman Street  
Carmarthen  
Carmarthenshire  
SA31 1LE

## ***Participation in hearings***

The examination will include a series of public hearings which will be held virtually using the Microsoft Teams platform. We expect these hearings to begin on **15 October 2024** and to continue for 4 weeks or so.

A draft hearings programme, including a list of potential participants and an outline of the matters to be discussed, has been published on the examination website. Please note that this is a 'live' document which is subject to change. We aim to publish the final timetable for the hearings, a definitive list of participants for each session, and the detailed list of matters, issues and questions, **23 August 2024**.

The hearings will be open to the public to observe, but only those who made relevant representations during the deposit consultation period are eligible to participate. Those who have already indicated to the Council that they wish to be heard have been assigned to relevant sessions as shown on the draft hearings programme. Others eligible to request to attend these sessions (as they have made relevant representations) are also listed but must request to participate. If you wish to speak at a hearing but are not listed on the programme, and you have made a representation which you consider makes you eligible to give oral evidence at that hearing, please get in touch with the Programme Officer as soon as possible. We would stress, however, that any written representations already made will carry equal weight to oral evidence given during hearings.

Whether or not you are identified as a participant on the draft programme, **it is ESSENTIAL that you CONFIRM with the Programme Officer your intention to speak at a hearing session as soon as possible and no later than 12 noon on 31 July 2024**. If your participation in a hearing has not been confirmed by this date, we will assume that you are content for your views to be dealt with via written representations, irrespective of what you may have previously stated. Your cooperation in this regard is much appreciated.

It would also assist the Programme Officer if you could confirm your contact details, in particular your email address (if you have one) as future communications will be conducted electronically as far as possible. Please quote your Representor ID shown at the top of this letter in all correspondence.

## **Information and guidance about the examination**

The examination website provides up-to-date information about the examination and hearings. Documents submitted by the Inspector, Programme Officer, Council and others will be published in the Examination Library section of the website under 'Examination Documents'. You should check this website regularly for the latest information, including changes to the programme. A Pre-Hearing Meeting will not be held for this examination. Instead, Guidance Notes for Participants have been published on the Examination website alongside this letter. **Please ensure that you read these carefully and comply with them during the examination.**

Participants should note that we will be writing to the Council with some preliminary questions regarding the LDP and its evidence base. This is purely to assist us and to facilitate an efficient examination process. This letter and the Council's response will be published on the examination website in advance of the hearings.

The Council provides internet access at public libraries. Details can be found at clause 3.3 of the Guidance Notes. Anyone wishing to view hard copies of examination documents should contact the Programme Officer who will be happy to assist.

### **Translation and special assistance at hearings**

Correspondence in both Welsh and English is welcomed, and examination documents will be available bilingually. Translation facilities will be arranged based on the linguistic preferences noted by participants in a hearing.

We welcome contributions through the medium of Welsh and to support the planning of the sessions, it would be appreciated if you could confirm if you would like to contribute in Welsh with the Programme Officer as soon as possible prior to the event so that the Council can make the necessary arrangements. Not informing us beforehand has no impact on your right to participate in Welsh, but it may delay proceedings whilst simultaneous translation services are arranged.

Participants who have specific requirements and require assistance during the examination should contact the Programme Officer as soon as possible.

If you have any questions about the content of this letter, please contact us via the Programme Officer.

Copies of the examination documents and hearing session programme are available to view on the Council's Local Development Plan 2018-2033 webpage, at the Council's HWB Centres / Customer Services Centres and public libraries (during normal opening hours).

Yours sincerely

*Nicola Gulley and Ian Stevens*

Inspectors

cc Carmarthenshire County Council